# GOLAU'R TYWYLLWCH

Mewn distawrwydd mae prydferthwch
Ar hyd y nos,
Ac mae cyfoeth mewn tywyllwch
Ar hyd y nos:
Blewyn coch ac adain denau,
Ysgafn draed, busneslyd ffroenau,
Blas ar waed a miniog glustiau
Ar hyd y nos.

Llygaid craff ar helfa sydyn,
Dan seren dlos,
Pelen bigog ar ôl mwydyn,
Rhwng clawdd a ffos,
Swil a llwyd â bol bach barus,
Llithren araf ac anghennus,
Mochyn gwyn a du truenus,
Yng nghanol rhos.

Hydref, gwanwyn haf a gaeaf,
Ar hyd y nos,
Dan yr awyr dywyll eithaf,
Ar hyd y nos,
Hyd eu llwybrau llawn dirgelwch,
Yn eu lliwiau a'u holl harddwch
Gadewch iddynt gael llonyddwch
Ar hyd y nos.

*Bl 7, Ysgol Uwchradd Botwnnog*
*5 Mawrth 2026*